# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 4 Tachwedd 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 300(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol**

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

I ofyn i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

**Helen Mary Jones (Canolbarth and Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y penderfyniad i gau'r gronfa cadernid economaidd yn gynnar i geisiadau sy'n ymwneud â'r cyfnod atal byr?

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Atal trafodion cyn pleidleisiau electronig o bell

(5 munud)

**NDM7448** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Atal trafodion cyn pleidleisiau electronig o bell', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Hydref 2020.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 34.14D, fel y nodir yn Atodiad A adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 6 Cynnig i ethol Aelod i Bwyllgor

(5 munud)

**NDM7453** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Caroline Jones (Y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes.

## 7 Cynnig i ethol Aelod i Bwyllgor

(5 mun)

**NDM7454** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Mark Reckless (Annibynnol) yn aelod o’r Pwyllgor Cyllid.

## 8 Cynnig i nodi'r adroddiad blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd ar gyfer 2019-20

(30 munud)

**NDM7447** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â pharagraff 8 (8) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

Yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd, a osodwyd gerbron y Senedd ar 18 Mehefin 2020.

## 9 Dadl ar ddeisebau: Addysgu hanes mewn ysgolion

(60 munud)

**NDM7450** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi’r deisebau canlynol ynglŷn â dysgu hanes mewn ysgolion:

a) Deiseb ‘P-05-992 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am Hanes Cymru fydd pob disgybl yn ei ddysgu’ a gasglodd 7,927 o lofnodion; a

b).Deiseb ‘P-05-1000 Ei gwneud yn orfodol i hanesion pobl dduon a POC y DU gael eu haddysgu yng nghwricwlwm addysg Cymru’ a gasglodd 34,736 o lofnodion.

P-05-992 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am Hanes Cymru fydd pob disgybl yn ei ddysgu

P-05-1000 Ei gwneud yn orfodol i hanesion pobl dduon a POC y DU gael eu haddysgu yng nghwricwlwm addysg Cymru

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7449** David J. Rowlands (Dwyrain De Cymru)

Cymesuredd cyfyngiadau symud Llywodraeth Cymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Tachwedd 2020